| GWEITHDREFN GWYNO I FYFYRWYR | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr | | |
| **Awdur** | Rheolwr Ansawdd a Rheoleiddio | | |
| **Awdurdodwyd Gan:** | Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr | | |
| **I'w weithredu gan:** | Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr | | |
| **Cyfeirnod y Weithdrefn:** | | | |
| **Rhif y Fersiwn:** | 12 | **Pwyllgor Cymeradwyo:** | Bwrdd Academaidd |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | Chwefror 2023 | **Rhif Cofnod:** | 22.056 |
| **Statws:** | Cymeradwywyd | **Dyddiad Gweithredu:** | Medi 2023 |
| **Cyfnod cymeradwyo:** | 3 blynedd | **Dyddiad Adolygu:** | Awst 2026 |
| Rwyf wedi cynnal prawf sgrinio asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu ac i hyrwyddo cydraddoldeb. | | | ✓ |
| Rwyf wedi ystyried effaith y Weithdrefn) ar yr iaith Gymraeg a darpariaeth yr iaith Gymraeg yn y Brifysgol. | | | ✓ |

## 1. CYD-DESTUN A DIBEN

1.1. At ddiben y weithdrefn hon, diffinnir cwyn fel "mynegiant o anfodlonrwydd gan un myfyriwr neu fwy ynghylch gweithredoedd neu ddiffyg gweithredu gan y Brifysgol, neu ynghylch safon y gwasanaeth a ddarparwyd gan y Brifysgol, neu ar ei rhan." (dyfyniad o Fframwaith Ymarfer Da Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) Rhagfyr 2016.

1.2. Mae'r weithdrefn hon wedi'i dylunio i alluogi myfyrwyr i wneud cwyn ffurfiol ac anffurfiol ar yr adeg briodol: dylid gwneud cwyn ffurfiol ar ôl iddynt ddilyn ac archwilio pob dull anffurfiol. Disgwylir i fyfyrwyr godi pryderon cychwynnol drwy systemau adborth cyfadrannau, gan gynnwys Fforymau Llais Myfyrwyr, y System Cynrychiolwyr Myfyrwyr ac adnodd adborth ar-lein yr Undeb Myfyrwyr. Caiff myfyrwyr hefyd drafod eu pryderon yn anffurfiol â'u harweinydd Rhaglen neu Fodiwl neu Diwtor Personol. Bydd y weithdrefn yn cael ei gweithredu mewn modd teg, sensitif a diduedd gyda phwyslais ar ddatrys y gŵyn yn gyflym ac yn anffurfiol lle bynnag y bo'n bosib.

1.3. Gofynnir i fyfyriwr sy'n dymuno cyflwyno cwyn ffurfiol ddilyn y weithdrefn o fewn y terfynau amser a fanylir yn adran 3.

1.4. Dylai myfyrwyr gyflwyno cwyn ffurfiol yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r Ffurflen Gwyno i Fyfyrwyr sydd ar gael ar y dudalen Gweinyddiaeth Myfyrwyr. Cyfrifoldeb y myfyriwr yw darparu tystiolaeth ddigonol a phriodol i gefnogi'r materion a godir mewn cwyn. Mae diffyg tystiolaeth sylweddol yn debygol o atal y gwyn rhag cael ei hystyried.

1.5. Mae’r Weithdrefn Gwyno yn ceisio trin pob myfyriwr, a staff sy’n destun cwynion, yn deg a chydag urddas a pharch. Ni fydd myfyrwyr cael eu rhoi dan anfantais os byddant yn cyflwyno cwyn yn ddidwyll, a gall myfyrwyr ddisgwyl bod pob cwyn yn cael ei thrin heb orfod ofni gwrthgyhuddiad. Mae’r Brifysgol hefyd yn disgwyl y bydd myfyrwyr sydd eisiau tynnu sylw at fater sy'n peri pryder wedi bodloni eu rhwymedigaethau personol o ran ymrwymiadau academaidd a safonau ymddygiad rhesymol.

1.6. Mae’r Brifysgol wedi sefydlu’r weithdrefn hon fel rhan o’i hymrwymiad i warchod safon ac ansawdd ei rhaglenni, ei gwasanaethau a'i chyfleusterau. Defnyddir adborth o gwynion i wella gwasanaethau a chyfleusterau lle bo hynny'n berthnasol.

1.7. Gwneir pob ymdrech i ddelio â phob cwyn yn brydlon, effeithiol ac ar y cyfle cyntaf wrth ymchwilio iddynt yn drylwyr, fodd bynnag, os yw'n amlwg o'r adolygiad cyntaf y gellir cyfiawnhau'r gŵyn yn llwyr neu'n rhannol gwneir ymdrech i gywiro pethau heb ymchwiliad llawn. Defnyddir y prawf ‘cydbwysedd tebygolrwydd’ i geisio datrys cwynion yn foddhaol drwy ystyried, ar sail y dystiolaeth, a yw'n fwy tebygol fod y mater wedi digwydd na'i fod heb ddigwydd.

1.8. Mae’r weithdrefn hon yn gyson â’r meincnodau allanol canlynol:

- Fframwaith Ymarfer Da SDA ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd, Rhagfyr 2016;
- Fframwaith Ymarfer Da SDA: Darparu Cyfleoedd Dysgu gydag Eraill;
- Fframwaith Ymarfer Da SDA: Cefnogi Myfyrwyr Anabl:
- Cyngor a Chyfarwyddyd Cod Ansawdd y DU QAA: Pryderon, Cwynion ac Apeliadau.

## 2. EGWYDDORION A CHWMPAS

2.1 Mae tri cham i’r Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr: cam datrys cynnar ar lefel leol, cam ffurfiol a cham adolygu.

- Bwriad y cam **datrys cynnar** yw ymdrin â phryderon syml yn gyflym ac yn lleol ar lefel cyfadran (neu adran weithredol) cyn i’r myfyriwr eu huwchgyfeirio drwy wneud cwyn ffurfiol. Efallai y gellir datrys y pryderon drwy drafodaeth wyneb yn wyneb gyda’r myfyriwr i ddarparu esboniad, awgrymu datrysiadau, rhoi ymddiheuriad ac ati. Disgwylir y bydd y mwyafrif o gwynion yn cael eu datrys ar y cam datrys cynnar drwy hwyluso trafodaethau cymodol rhwng y myfyriwr a’r staff dan sylw.

- Defnyddir proses y **cam Ffurfiol** pan fydd myfyriwr yn dal yn anfodlon ac yn dymuno mynd ymlaen i'r broses ffurfiol, neu pan fydd y Brifysgol yn ystyried bod y materion a godwyd yn gymhleth ac angen ymchwiliad manylach. Mae unrhyw gais i fynd ymlaen i’r cam ffurfiol yn amodol ar fodloni’r meini prawf a nodir yn y weithdrefn.

- Efallai y bydd y gŵyn yn mynd ymlaen i'r **cam Adolygu** os yw myfyriwr yn anfodlon â chanlyniad y cam ffurfiol. Dylai cais am adolygiad fodloni'r seiliau a nodir yn y weithdrefn ym mhwynt 4.3.4.

2.2 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr, yn cynnwys y rhai hynny sy'n astudio ar gyfer graddau ymchwil.

2.3 Gofynnir i fyfyrwyr sy'n astudio graddau ymchwil gyda Phrifysgol Caer ddatrys cwynion dan Weithdrefn hon. Bydd Prifysgol Caer yn cael gwybod am yr holl faterion cwyno sy'n cyrraedd camau ffurfiol y weithdrefn hon, ac mae ganddi hawl i gael cynrychiolydd ar unrhyw banel sy'n ymgynnull dan gamau ffurfiol y weithdrefn hon. Ar ôl defnyddio'r weithdrefn hon, ac os bydd y myfyriwr yn dal yn anfodlon, gellir gwneud cais am adolygiad gan Brifysgol Caer.

2.4 Lle bo'n bosibl, bydd y terfynau amser a nodir yn y weithdrefn hon yn cael eu dilyn. Fodd bynnag, gall fod adegau, yn enwedig yn ystod gwyliau'r Brifysgol neu pan fydd cwynion yn codi sawl mater cymhleth, pan na fydd hyn yn bosibl. Mewn achos o'r fath, bydd pob parti yn cael eu hysbysu o'r rhesymau am yr oedi ac yn cael eu diweddaru ynghylch datblygiadau.

**Colegau a Sefydliadau Partner**

2.5 Dylai myfyriwr sy'n astudio am ddyfarniad Prifysgol mewn coleg/sefydliad partner ddefnyddio'r gweithdrefnau perthnasol yn y coleg/sefydliad hwnnw i ddatrys y gŵyn a dylai gwblhau pob cam o'r weithdrefn honno. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd angen i'r myfyriwr gyfeirio materion sy'n effeithio ar ansawdd a safonau i'r Brifysgol am ystyriaeth.

Os bydd y myfyriwr yn dal yn anfodlon ar ôl cwblhau gweithdrefn y coleg/sefydliad partner, gall y myfyriwr un ai:

- Ofyn am lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan y coleg/sefydliad partner (y gellir ei ddosbarthu dim ond ar ôl i'r coleg/sefydliad partner drafod â'r Brifysgol) a gofyn am adolygiad gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA)

  Neu

- Drosglwyddo'r mater i'r Brifysgol am ystyriaeth dan gam Adolygu gweithdrefn gwyno y Brifysgol. Ystyrir y seiliau dros wneud cais am adolygiad ym mharagraff 4.4.1 yng nghyd-destun yr ymchwiliadau a wnaed yn flaenorol, yn unol â gweithdrefn gwyno'r coleg/sefydliad Partner.

## Eithrio o'r Weithdrefn Gwyno

2.6 Ymdrinnir â'r materion penodol canlynol dan bolisïau a gweithdrefnau eraill sydd gan y brifysgol ac ni fyddant yn cael eu hystyried dan y Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr.

- Fel arfer, ni dderbynnir cwynion di-enw. Fel eithriad, fe all Cyfarwyddwr Gweinyddu a Chynllunio ar gyfer Myfyrwyr benderfynu derbyn cwyn ddi-enw os oed achos cadarn wedi ei gefnogi â thystiolaeth briodol, a ellir, yn ddelfrydol, ei ddilysu.
  Dylid gwneud myfyrwyr yn ymwybodol y gall cyflwyno cwyn ddi-enw ymyrryd â'r ymchwiliad a'i ganlyniad yn ogystal â chyfleu'r deilliant.
- Cwynion ynghylch barn academaidd;
- Apeliadau academaidd yn ymwneud â phenderfyniadau byrddau asesu;
- Honiadau o fwlio neu aflonyddu neu gamymddwyn gan aelod o staff / myfyriwr;
- Honiadau o gamymddygiad rhywiol a thrais;
- Cwynion am yr Undeb Myfyrwyr
- Cwynion am y Ganolfan Asesu
- Cwynion am y broses dderbyn.

## Cymorth i Fyfyrwyr

2.7 Os bydd myfyrwyr yn nodi anghenion unigol ar y ffurflen gwyno i fyfyrwyr, bydd y Brifysgol yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod myfyrwyr gydag anghenion unigol wedi'u diagnosio yn cael chwarae teg wrth ddefnyddio'r weithdrefn hon. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw anawsterau hygyrchedd sy'n deillio o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

2.8 Anogir myfyrwyr i geisio cymorth a chyngor diduedd gan yr Undeb Myfyrwyr drwy anfon e-bost at: suadvice@glyndwr.ac.uk neu ffonio: 01978 293371. Gellir dod o hyd i fanylion am ganolfan gynghori Undeb y Myfyrwyr drwy fynd i wefan yr Undeb Myfyrwyr: www.wrexhamglyndwrsu.org.uk. Gall myfyrwyr gael mynediad at gefnogaeth a chymorth mewn ystod eang o feysydd a cheir rhagor o fanylion drwy Fewnrwyd y Myfyrwyr.

2.9 Bydd myfyrwyr sy'n datgan problemau iechyd meddwl fel rhan o'r broses gwyno yn cael gwybod am wasanaethau cymorth mewnol ac, os yw'n briodol, allanol sydd ar gael. Os ymddengys nad yw myfyriwr yn gallu dilyn y weithdrefn gwyno yn effeithiol, efallai y bydd y Brifysgol yn argymell i'r myfyriwr benodi cynrychiolydd. Os bydd y Rheolwr Ansawdd a Rheoleiddio yn credu ei fod yn briodol, gellir gohirio'r broses o ystyried y gŵyn nes bod y myfyriwr wedi cael cymorth priodol.

## Terfynau amser

2.10 Fel rheol, dylai unrhyw fyfyriwr sy'n dymuno gwneud cwyn ddechrau defnyddio'r weithdrefn cyn pen deugain diwrnod gwaith o'r digwyddiad a achosodd y gŵyn. Pan mae myfyriwr yn honni bod y broblem wedi cael effaith hirdymor neu barhaus, ystyrir y cyfyngiad amser o'r dyddiad yr effeithiwyd ar y myfyriwr gan y broblem yn gyntaf. Pan mae myfyrwyr wedi derbyn eu dyfarniad neu ei fod wedi ei atal ac yn dymuno cwyno dylent ddilyn y weithdrefn gwynion cyn pen deugain diwrnod gwaith o dderbyn y dyfarniad neu'r atal.

2.11 Ystyrir cwynion a gyflwynwyd y tu allan i’r terfynau amser hyn fel eithriadau os yw’r myfyriwr yn darparu tystiolaeth o reswm da dros yr oedi. Bydd y Rheolwr Ansawdd a Rheoliad yn penderfynu a gaiff y gŵyn ei hystyried ar ôl y terfyn amser ai peidio.

2.12 Os bydd y myfyriwr yn methu â gwneud y canlynol:

- ymateb i geisiadau rhesymol am wybodaeth ynghylch y gŵyn neu
- mynychu cyfarfodydd i geisio datrys y gŵyn neu
- gyfathrebu gyda’r Brifysgol ynghylch y gŵyn,

am gyfnod sy’n mynd y tu hwnt i bythefnos, tybir nad yw’r myfyriwr yn dymuno parhau â’r gwyn mwyach. Ni chymerir rhagor o gamau dan y weithdrefn, a dywedir wrth y myfyriwr fod y mater wedi cau o ganlyniad i'r diffyg ymateb.

**Cwynion Grŵp**

2.13 Gellir defnyddio’r Weithdrefn ar gyfer cwynion unigol a chwynion grŵp. Gall cwynion grŵp fod o natur gyffredinol, felly efallai y bydd yn fwy priodol i fyfyrwyr godi’r materion hyn gyda’u cynrychiolwyr myfyrwyr neu gyrff eraill a sefydlwyd at ddibenion cyffelyb yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, os yw’r system gynrychioli berthnasol wedi methu â darparu canlyniad boddhaol, gellir gwneud cwynion grŵp dan y weithdrefn hon, ac fe ymdrinnir â nhw yn gyfunol.

2.14 Argymhellir y dylai un myfyriwr fod yn llefarydd ac yn ohebydd ar gyfer y grŵp, ac mae’n rhaid i bob aelod o’r grŵp gytuno’n ysgrifenedig y caiff y llefarydd weithredu ar eu rhan. Rhaid i bob parti sy’n gysylltiedig â’r gwyn allu dangos eu bod y materion a godwyd wedi effeithio'n bersonol arnyn nhw. Dylai’r ffurflen gwyno gael ei llofnodi a'i chyflwyno gan y llefarydd enwebedig, a dylid cynnwys rhestr wedi’i llofnodi o enwau'r myfyrwyr eraill sy'n dymuno gwneud y gŵyn gyda'r ffurflen. Dylai’r grŵp gytuno ar y dystiolaeth a ddarperir gan y llefarydd, ac ni chaniateir cynnwys unrhyw dystiolaeth bellach gan bartïon eraill i'r gŵyn ar ôl cyflwyno am y tro cyntaf.

2.15 Os bernir bod y gŵyn wedi'i chyfiawnhau yn rhannol neu’n llawn, ac mae’r Brifysgol yn cynnig setlo'r mater, bydd y cynnig hwn yn cael ei rannu’r â’r llefarydd gyda’r disgwyliad y bydd yn ei rannu â phartïon eraill i'r gŵyn. Bydd angen derbyn (neu wrthod) y cynnig yn ysgrifenedig gan gynnwys llofnod bob parti i'r gwyn.

2.16 Os caiff y cynnig ei dderbyn yn rhannol, bydd telerau’r cynnig yn berthnasol i’r rheiny sydd wedi nodi eu bod yn dymuno ei dderbyn.

2.17 I’r myfyrwyr hynny nad ydynt yn dymuno derbyn y cynnig, bydd y meini prawf a therfynau amser arferol ar gyfer trosglwyddo cwynion i’r cam nesaf yn berthnasol.

**Cwynion gan Drydydd Parti**

2.18 Fel rheol, mae'n rhaid i gwynion gael eu gwneud gan y myfyrwyr eu hunain, ac nid gan eraill yn gweithredu ar eu rhan, oni bai y darperir awdurdodiad a rhesymeg ysgrifenedig. Fel arfer bydd caniatâd i drydydd partïon gyflwyno cwynion yn cael ei roi dim ond os yw'n angenrheidiol er mwyn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr sydd ag anghenion unigol.

2.19 Os gwneir cwyn gan fyfyriwr sydd dan 18 oed, bydd y Brifysgol fel arfer yn hysbysu'r rhiant/gwarcheidwad yn ysgrifenedig ac yn eu diweddaru ynghylch datblygiadau, yn ddibynnol ar gytundeb y myfyriwr. Os yw'r myfyriwr dan 18 oed, bydd y Brifysgol yn caniatáu i riant/gwarcheidwad y myfyriwr weithredu ar ei ran, os bydd y myfyriwr wedi cytuno i hynny yn ysgrifenedig.

**Cwynion i'r Is-ganghellor**

2.20 Os gwneir cwyn yn uniongyrchol i Swyddfa'r Is-ganghellor, caiff ei chydnabod a'i chyfeirio at y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr, a fydd yn sicrhau bod y gŵyn yn dechrau cael ei hystyried ar y pwynt priodol yn y Weithdrefn. Os nad yw'r myfyriwr wedi gwneud unrhyw ymgais i ddatrys y gŵyn, cynghorir y myfyriwr i godi'r materion dan sylw gyda'r Adran Academaidd neu Weithredol berthnasol i ddechrau, os bernir bod hynny'n briodol.

**Cwynion Disylwedd, Maleisus neu Flinderus**

2.21 Mae'r Brifysgol yn diffinio cwynion disylwedd neu flinderus fel a ganlyn:

- Cwynion sy'n obsesiynol, yn aflonyddu neu'n ailadroddus;
- Mynnu canlyn cwynion ofer neu ddibwys, neu wneud galwadau/mynnu canlyniadau afrealistig/afresymol o ganlyniad i gyflwyno cwyn;
- Ymddygiad afresymol neu amhriodol wrth ganlyn cwyn;
- Cwynion sy'n cael eu gyrru gan falais, gyda'r bwriad o darfu neu gythruddo;
- Cwynion sydd â'r bwriad o ddwyn gwarth ar enw neu gymeriad unigolyn arall.

2.22 Os ystyrir bod cwyn gan fyfyriwr yn ddisylwedd, yn faleisus neu flinderus, bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn cadarnhau hyn. Hysbysir y myfyriwr na fydd ei gŵyn yn cael ei hystyried, a darperir rhesymau dros y penderfyniad.

2.23 Bydd gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr awdurdod i weithredu'r Weithdrefn Ddisgyblu i Fyfyrwyr neu unrhyw weithdrefn briodol arall sydd gan y Brifysgol. Efallai y cyfeirir myfyrwyr y mae eu rhaglen yn arwain at gofrestriad proffesiynol at y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer.

2.24 Hysbysir y myfyriwr o'r hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn cyn pen deg diwrnod gwaith o ddyddiad yr hysbysiad o'r penderfyniad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr. Rhaid gwneud apêl yn ysgrifenedig, gan ddarparu rhesymau llawn dros yr apêl, a'i chyflwyno i'r Is-ganghellor a fydd yn gofyn i aelod o Fwrdd yr Is-ganghellor adolygu'r penderfyniad. Bydd y penderfyniad a wneir gan yr aelod o Fwrdd yr Is-ganghellor yn derfynol.

2.25 Os yw'r apêl yn cael ei chadarnhau, ymchwilir i'r gŵyn yn unol â'r Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr.

2.26 Os gwrthodir yr apêl, ni chymerir unrhyw gamau i ymchwilio i'r gŵyn, a rhoddir gwybod i'r myfyriwr am unrhyw weithdrefn arall sy'n cael ei rhoi ar waith, os bydd hynny'n berthnasol.

**Safonau Ymddygiad Derbyniol**

2.27 Wrth gyflwyno cwyn, disgwylir y bydd myfyrwyr yn ymddwyn yn gwrtais ac yn rhesymol. Os bydd codau ymddygiad derbyniol yn cael eu torri, efallai y bydd yn rhaid defnyddio gweithdrefnau eraill y Brifysgol e.e. Gweithdrefn Disgyblu Myfyrwyr, y Polisi a'r Weithdrefn Gwrth-aflonyddu a Gwrth-fwlio: Myfyrwyr, neu'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer. Bydd yr ymchwiliad i'r gŵyn yn dod i ben, gan fod y gŵyn yn cael ei hystyried yn flinderus yn unol â'r diffiniad ym mharagraff 2.24. Os ystyrir y camau gweithredu hyn, rhoddir gwybod i'r myfyriwr yn ysgrifenedig, a bydd yn cael cyfle i gydymffurfio â chodau ymddygiad derbyniol. Os na chydymffurfir â'r gofyniad hwn ac mae'r ymddygiad amhriodol yn parhau, bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn ysgrifennu at y myfyriwr i ddweud bod y gŵyn yn cael ei hystyried yn un flinderus. Ceir hawl i apelio yn unol â pharagraff 2.24 uchod.

**Tystiolaeth wedi'i Recordio**

2.28 Nid chaniateir cyflwyno deunydd wedi'i recordio fel tystiolaeth ar gyfer cwyn.

**Cyfrinachedd**

2.29 Cedwir pob cofnod yn ymwneud â'r gŵyn yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Rhoddir sylw dyledus i gyfrinachedd pob parti, gyda gwybodaeth yn cael ei rhannu at ddiben ymchwilio i gwynion yn unig. Dylid nodi, er mwyn caniatáu ymchwilio priodol i gwynion dan y weithdrefn hon, bydd y cynnwys yn cael ei rannu ag unigolion sydd ynghlwm â rhoi'r Weithdrefn ar waith neu unigolion y gellid bod angen eu mewnbwn i ymateb i'r materion, e.e. Staff cyfadran, y Rheolwr Cynhwysiant, y Swyddogion Gweinyddiaeth Myfyrwyr perthnasol neu unrhyw unigolyn a enwir yn y gŵyn. Drwy gyflwyno cwyn, mae'r myfyriwr yn cydsynio i ddatgelu, cadw a rhannu gwybodaeth berthnasol i'r gŵyn o fewn y Brifysgol ar bob cam o'r Weithdrefn. Os bydd hyn yn peri problem i'r myfyriwr, efallai y bydd ef/hi yn dymuno cael cyngor gan y Rheolwr Ansawdd; fodd bynnag, gall peidio â rhoi caniatâd effeithio ar allu'r Brifysgol i ystyried y gwyn yn llawn. Bydd unrhyw wybodaeth a ddefnyddir at ddibenion monitro yn cael ei gwneud yn ddienw.

2.30 Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd manylion llawn am ganlyniad ymchwiliad i gŵyn a gael i'r myfyriwr, ond ar brydiau efallai y bydd yn rhaid ystyried hawliau unigolion o ran cyfrinachedd. Pan fydd angen gwneud hyn, rhennir y rhesymau dros beidio â datgelu gwybodaeth gyda'r myfyriwr, oni bai y byddai hyn yn ei hun yn torri ar gyfrinachedd unigolion eraill.

**Cwmni mewn Gwrandawiadau Cwyno**

2.31 Mewn unrhyw gyfarfod sy'n rhan o'r Weithdrefn hon, mae gan y myfyriwr yr hawl i gael cwmni myfyriwr cofrestredig, ffrind, perthynas, aelod o staff y Brifysgol (neu goleg/sefydliad Partner), cynghorydd o'r Undeb Myfyrwyr neu unrhyw unigolyn sydd ei angen ar y myfyriwr i'w gefnogi gydag unrhyw anghenion unigol (e.e. gofalwr, arwyddwr). Caiff yr unigolyn hwn siarad ar ran y myfyriwr hefyd, cyn belled â bod y myfyriwr yn bresennol hefyd a bod y Cadeirydd wedi rhoi caniatâd.

2.32 Cydnabyddir mai dan rai amgylchiadau, gall y myfyriwr ofyn am gynrychiolaeth gyfreithiol mewn cyfarfod ymchwilio neu wrandawiad panel. Dan rai amgylchiadau prin o'r fath, dylid cyflwyno cais ysgrifenedig o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod/gwrandawiad, gan gynnwys enw'r unigolyn sy'n cael ei wahodd a'r rheswm dros y cais. Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried ar sail achos wrth achos gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu enwebai).

Os caniateir y cais, mae gan y Brifysgol yr hawl i gael ei chynrychiolydd cyfreithiol ei hun yn bresennol. Bydd pob parti yn ysgwyddo ei gostau cyfreithiol ei hun ac yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau'r cyfarfod a'r dogfennau angenrheidiol yn cael eu darparu i'r rheini sy'n mynychu gyda nhw.

2.33 Os na roddir gwybod am gynrychiolaeth gyfreithiol neu gan gorff proffesiynol ymlaen llaw, ac mae myfyriwr yn dod â chynrychiolydd o gorff proffesiynol neu unigolyn cyfreithiol gymwys i wrandawiad, ni fydd y gwrandawiad yn mynd rhagddo a bydd yn cael ei ohirio.

**Ystyriaeth dan fwy nag un weithdrefn**

2.34 Os bydd cwynion a godir gan fyfyriwr yn disgyn dan gylch gwaith mwy nag un weithdrefn e.e. y Weithdrefn Gonestrwydd Academaidd yn ogystal â’r Weithdrefn Gwyno, efallai y bydd angen gohirio ymchwiliad dan un weithdrefn nes bod y mater dan y weithdrefn arall wedi cael ei ddatrys. Fel arall, a chyda chytundeb bob parti, efallai y bydd yn bosibl ystyried yr holl faterion ar yr un pryd. Yn y sefyllfa honno, dylai fod yn glir gan bwy mae’r cyfrifoldeb cyffredinol am y materion a godwyd a phwy fydd yn pennu’r canlyniad terfynol. Bydd Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn gwneud asesiad fesul achos o'r ffordd orau i ymdrin ag achosion cymhleth neu rhyng-gysylltiedig a gellir cymryd agwedd hyblyg i addasu gweithdrefnau cyffredin lle bo'n rhesymol. Rhoddir ystyriaeth i'r deilliant mae'r myfyriwr yn ei geisio, cyfleoedd ar gyfer datrysiad cynnar, p'un a ellir defnyddio proses unigol i sefydlu'r ffeithiau ac fel sail i wneud penderfyniadau dan broses arall a sut i'w wneud mor hawdd â phosibl i fyfyriwr. Bydd y myfyriwr yn cael ei ddiweddaru’n llawn ynghylch y weithdrefn a ddefnyddir i ymchwilio i'w gŵyn a bydd y rheswm pam bod newid i brosesau a chofnodion arferol wedi digwydd a pham fod proses arall wedi ei defnyddio yn cael eu cadw.

2.35 Os bernir, yn dilyn cyfarwyddyd gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu ei enwebai), bod gweithdrefn arall yn fwy addas ar gyfer ymdrin â’r materion a godwyd, bydd yr achos yn cael ei ystyried dan weithdrefn fwy priodol, a rhoddir gwybod am hynny i'r myfyriwr.

## Cwynion yn erbyn Aelodau Staff

2.36 Efallai y bydd aelodau staff y gwnaed cwyn yn eu herbyn yn poeni am y broses o wrando ar y gŵyn. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod ganddi ddyletswydd i sicrhau bod ei staff hefyd yn cael eu trin yn deg drwy gydol y broses, ac i'r perwyl hwnnw, bydd y gefnogaeth a'r wybodaeth ganlynol yn cael eu darparu:

- Bydd gan aelodau staff yr hawl i gael eu cefnogi gan eu rheolwr llinell drwy gydol y broses. Os yw'r rheolwr llinell hefyd yn rhan o'r gŵyn, bydd uwch aelod o staff arall yn cael ei enwebu i ddarparu'r gefnogaeth honno;
- Rhoddir gwybod i aelodau staff ar ddechrau'r Weithdrefn Gwyno beth yw natur y gŵyn;
- Bydd gan aelodau staff yr hawl i ymateb i gŵyn o'r fath ar unrhyw gam o'r broses;
- Bydd gan aelodau staff yr un hawl mynediad â'r myfyriwr at unrhyw dystiolaeth ddogfennol a gyflwynwyd fel rhan o unrhyw gŵyn, neu i'w chefnogi.

2.37 Os yw unrhyw gŵyn a wnaed yn erbyn aelod o staff dan y weithdrefn hon o natur ddisgyblaethol, ymchwilir iddi yn unol â'r Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr yn y lle cyntaf, ac os profir y gŵyn, caiff ei throsglwyddo er mwyn cymryd camau pellach yn unol â Gweithdrefn Ddisgyblu'r Brifysgol i Staff. Cymerir gofal i gynnal cyfrinachedd yn unol â pharagraffau
2.29 a 2.30 uchod.

## Cwynion a wneir yn erbyn Staff nad ydynt yn rhan o'r Brifysgol

2.41 Os gwneir cwyn yn erbyn aelod o staff nad yw'n rhan o'r Brifysgol e.e. aelod staff darparwr lleoliad neu unigolyn sy'n cael ei gyflogi drwy wasanaeth allanol, bydd y Brifysgol yn gweithio gyda staff priodol y cyflogwr arall i ddatrys y mater, gan weithredu gweithdrefnau'r cyflogwr hwnnw os oes angen.

2.42 Cymerir gofal i sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu yn gyfrinachol, pan fydd gwir angen i rywun wybod yn unig.

2.43 Hysbysir y myfyriwr am y gweithdrefnau sy'n cael eu rhoi ar waith a'r cynnydd sy'n cael ei wneud, gydag amserlenni disgwyliedig.

## Mynychu Cyfweliadau a Gwrandawiadau Panel

2.44 Os nad yw lleoliad astudio arferol y myfyriwr ar gampws Wrecsam a/neu mae'r myfyriwr yn profi anawsterau o ran bod yn bresennol mewn cyfweliadau neu wrandawiadau panel e.e. oherwydd anabledd neu gyfrifoldebau gofalu, gwneir trefniadau i'r myfyriwr gymryd rhan drwy gynhadledd fideo.

## 3. HYFFORDDIANT, MONITRO AC ADOLYGU

3.1 Darperir hyfforddiant i bob aelod o staff sydd ynghlwm â gweithredu'r weithdrefn.

3.2 Bydd y gwaith o fonitro'r broses yn cael ei wneud drwy gofnodi achosion unigol a pharatoi Adroddiad Blynyddol nad yw'n cynnwys enwau, a fydd yn cael ei ystyried gan Fwrdd Academaidd y Brifysgol neu bwyllgor priodol o'r Bwrdd Academaidd. Bydd yr adroddiad hwn yn dadansoddi data'r achos ac yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwneud gwelliannau, gan gynnwys adnabod cyfleoedd am ragor o hyfforddiant.

3.3 Yn achos cwynion sy'n cael eu datrys yn y cam adolygu neu'r cam ffurfiol, dylai unrhyw argymhellion a ddaw o gwynion myfyrwyr neu a wnaed gan y Swyddog Ymchwilio neu'r Panel Adolygu gael eu clustnodi i aelodau staff penodol weithredu arnynt, a bod terfynau amser ar gyfer gweithredu yn cael eu gosod. Bydd unrhyw argymhellion ar lefel rhaglen yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol i'w monitro a'u cwblhau. Bydd Deon y Gyfadran neu'r Pennaeth Gweithredol, fel sy'n briodol, yn gyfrifol am fonitro i sicrhau y rhoddir sylw llawn a phrydlon i unrhyw gamau/datrysiadau sy'n deillio o ganlyniad y gŵyn. Bydd y Rheolwr Ansawdd yn cael gwybod am y camau/datrysiadau hyn, ac yn cofnodi eu cynnydd er mwyn cynnwys hynny yn yr adroddiad blynyddol. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw enghreifftiau o arfer da neu wersi a ddysgwyd yn cael eu dosbarthu ar draws y Brifysgol.

3.4 Colegau a sefydliadau partner - fel agwedd bwysig ar fonitro ansawdd dyfarniadau'r Brifysgol, disgwylir i golegau a sefydliadau partner ddarparu'r canlynol i'r Rheolwr Partneriaethau:

- Copi o Weithdrefn Gwyno'r coleg/sefydliad partner, a dylai roi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw newidiadau dilynol a wnaed iddi;
- Crynodeb blynyddol o unrhyw gwynion ffurfiol a gafwyd gan fyfyrwyr sy'n astudio am ddyfarniadau'r Brifysgol, gan nodi sut yr ymdriniwyd â nhw drwy weithdrefn gwyno'r coleg/sefydliad partner.

## 4. CAMAU'R WEITHDREFN GWEITHDREFN GWYNO I FYFYRWYR

4.1.1 Cyn cyflwyno cwyn i'r Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr, disgwylir i fyfyrwyr fod wedi defnyddio mecanweithiau adborth y Brifysgol sydd ar gael iddynt e.e. y system Cynrychiolwyr Myfyrwyr a Fforymau Llais Myfyrwyr. Mae'r Undeb Myfyrwyr hefyd yn darparu adnodd ar-lein i godi pryderon. Gellir cysylltu â'r Undeb Myfyrwyr i gael cyngor ac arweiniad drwy suadvice@glyndwr.ac.uk neu dros y ffôn, 01978 293371.

4.1.2 Er mwyn gwneud cwyn, gofynnir i fyfyrwyr gwblhau'r ffurflen gwyno i fyfyrwyr (sydd ar gael ar Borth Gweinyddiaeth Myfyrwyr). Dylid cyflwyno ffurflenni sydd wedi'u cwblhau drwy complaints@glyndwr.ac.uk **cyn pen 40 diwrnod gwaith** o'r digwyddiad/ gweithred neu ddiffyg gweithredu a achosodd y gwyn.

4.1.3 Rhaid darparu tystiolaeth ar gyfer pob mater sy'n peri pryder o fewn y gŵyn, a gall tystiolaeth o'r fath gynnwys manylebau rhaglen, llawlyfrau modiwl, llawlyfrau rhaglen, negeseuon e-bost, taflenni, cyhoeddiadau Moodle etc. Mae'n annhebygol y bydd pryderon nad ydynt wedi cael eu cefnogi gan dystiolaeth briodol yn cael eu hystyried, oni bai y gellir rhoi rheswm digonol dros ddiffyg tystiolaeth.

4.1.4 Ar ôl cyflwyno cwyn, efallai y gofynnir i fyfyrwyr gwrdd â'r Rheolwr Ansawdd er mwyn trafod yr achos(ion) sy'n peri pryder, y dystiolaeth ategol a'r canlyniad(au) sy'n cael eu hystyried. Bydd y Rheolwr Ansawdd yn penderfynu ar ba gam o'r weithdrefn fydd y gŵyn yn cael ei derbyn. Os nad yw'r myfyriwr wedi gwneud unrhyw ymgais flaenorol i ddatrys y gŵyn, cynghorir y myfyriwr i fynd ar drywydd y materion a godwyd gyda'r Adran Academaidd neu Weithredol berthnasol yn y lle cyntaf, os bernir bod hynny'n briodol.

4.1.5 Gellir cyflwyno achosion yn Gymraeg neu yn Saesneg ar bob cam o'r weithdrefn gwyno ffurfiol. Os yw'r sawl sy'n gwneud y gŵyn yn bwriadu bod yn bresennol mewn cyfarfod, mae'n rhaid iddynt roi gwybod ymlaen llaw beth yw eu dewis iaith.

4.1.6 Yn amodol ar gymhwysedd, byd dy Brifysgol yn ceisio datrys cwyn cyn gynted ag y bo modd. Os yw'n amlwg o'r adolygiad cyntaf y gellir cyfiawnhau'r gŵyn yn llwyr neu'n rhannol gwneir ymdrech i gywiro pethau heb ymchwiliad llawn er mwyn cyflawni datrysiad ymarferol yn brydlon.

### 4.2 Datrysiad Cynnar ar lefel leol

4.2.1 Bydd y Rheolwr Ansawdd yn hwyluso datrysiad ar lefel leol / cyfadran fel y gwelir yn briodol. Efallai y bydd hyn yn cynnwys cynnal cyfarfod gydag aelod priodol o staff o'r gyfadran neu adran weithredol. Efallai y bydd angen ymchwilio ymhellach i gael mwy o wybodaeth cyn cyrraedd datrysiad.

4.2.2 Fel eithriad, os yw natur y gŵyn yn awgrymu na fyddai'n bosibl i'r Deon Gyfadran neu Adran weithredu'n ddiduedd, gall uwch aelod o staff yn ymdrin â'r gŵyn, gyda chymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr. Hysbysir y myfyriwr o'r penderfyniad hwn yn ysgrifenedig.

4.2.3 Caniateir i gynrychiolydd myfyrwyr neu Ymgynghoryddo Undeb y Myfyrwyr gefnogi myfyrwyr mewn cyfarfodydd Datrysiad Cynnar os oes angen. Gellir hefyd ceisio cefnogaeth neu gymorth ychwanegol gan y tîm Bywyd Myfyrwyr a Champws. Rhoddir ystyriaeth hefyd i unrhyw geisiadau am addasiadau rhesymol.

4.2.4 Dylai pob parti wneud pob ymdrech i ddod o hyd i ddatrysiad sy'n dderbyniol i'r materion a fynegwyd. Mewn rhai sefyllfaoedd, efallai y byddai esboniad, canlyniad arall neu ymddiheuriad yn datrys y mater.

4.2.5 Fel arfer, dylai'r aelod o staff sy'n ymdrin â'r gŵyn ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r gŵyn i'r myfyriwr **o fewn ugain diwrnod gwaith** o wneud y gŵyn. Fodd bynnag, efallai y bydd angen estyniad rhesymol i'r cyfnod amser hwn yn ystod gwyliau'r Brifysgol, pan fydd cwynion yn codi nifer o faterion cymhleth, neu o ganlyniad i amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol, a bydd y myfyriwr yn cael ei hysbysu ynghylch datblygiadau.

4.2.6 Bydd yr ymateb ysgrifenedig yn nodi a yw'r gŵyn wedi'i chadarnhau ai peidio, a pha ganlyniad sy'n cael ei gynnig. Bydd yr ymateb hefyd yn nodi unrhyw wersi y gellir eu dysgu o'r mater(ion) a godwyd, gyda'r nod o wella profiad cyffredinol y myfyriwr.

4.2.7 Bydd cofnodion o bob cyfarfod gyda'r myfyriwr a phartïon eraill yn cael eu cadw, gan gynnwys dogfennaeth sy'n rhoi manylion y canlyniad arfaethedig ac ymatebion y myfyriwr, oherwydd efallai y bydd eu hangen os bydd y myfyriwr yn dal yn anfodlon, ac yn gofyn i'r gŵyn gael ei hystyried dan Gam Ffurfiol y weithdrefn.

4.2.8 Os bydd y myfyriwr yn dal yn anfodlon â'r canlyniad ar y Cam Datrys Cynnar, caiff ei hysbysu o'i hawl i drosglwyddo'r mater am ystyriaeth ar gam nesaf y weithdrefn, a'r terfyn amser ar gyfer gwneud hynny.

### 4.3 Cam Ffurfiol (Ymchwiliad)

4.3.1 Gellir derbyn cwyn myfyriwr i'r Cam Ffurfiol o'r weithdrefn yn syth os yw'r materion a godwyd yn gymhleth ac angen ymchwiliad manwl a bod angen casglu tystiolaeth helaeth. Mae'r Rheolwr Ansawdd a Rheoleiddio wedi cymeradwyo hyn.

4.3.2 Os bydd myfyriwr yn dal yn anfodlon â chanlyniad ar y Cam Datrys Cynnar, dylai nodi pa faterion o'r gŵyn mae'n parhau'n anfodlon â nhw i'r Rheolwr Ansawdd mewn neges e-bost i complaints@glyndwr.ac.uk **cyn pen deg diwrnod gwaith** o gael gwybod am ganlyniad Cam Datrys Cynnar y weithdrefn.

4.3.3 Mae'n rhaid darparu tystiolaeth i gefnogi cais i symud y gŵyn ymlaen i'r Cam Ffurfiol, a rhaid nodi'n glir pa ganlyniad(au) y gobeithir eu cyflawni.

4.3.4 Bydd uwch swyddog yn yr adran Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn adolygu cais i symud pryderon ymlaen i Gam Ffurfiol y Weithdrefn, i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr. Bydd y gŵyn yn mynd yn ei blaen i Gam Ffurfiol y weithdrefn os bodlonir y meini prawf canlynol:

- Mae ymgeisiau clir wedi cael eu gwneud i ddatrys y gŵyn dan Gam Datrys Cynnar y weithdrefn neu mae rhesymau eithriadol dros beidio â gwneud hynny wedi cael eu nodi;
- Mae'r cais wedi dod i law **cyn pen deg diwrnod gwaith** o'r dyddiad yr hysbyswyd am ganlyniad Cam Datrys Cynnar y weithdrefn. Yr unig adeg y caiff y terfyn amser hwn ei ymestyn yw mewn amgylchiadau eithriadol y mae'n rhaid darparu tystiolaeth ohonynt, a bydd y cais i ymestyn y terfyn amser yn cael ei ystyried gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr;
- Mae tystiolaeth i gefnogi'r cais i symud y gŵyn yn ei blaen wedi cael ei darparu, neu mae rheswm da dros yr hepgoriad hwn wedi cael ei ddarparu;
- Mae'r materion a godwyd a'r dystiolaeth a ddarparwyd yn awgrymu y byddai'n bosibl cael canlyniad gwahanol iawn drwy ymchwilio i'r gŵyn ar Gam Ffurfiol y weithdrefn;
- Ni ystyrir bod y gŵyn yn ddisylwedd, maleisus na blinderus yn unol â pharagraffau 2.21 i 2.26 uchod;
- Nid yw'r gŵyn yn cael ei chyflwyno gan drydydd parti, oni bai y darperir awdurdod a rhesymeg ysgrifenedig (paragraff 2.18), neu mae'r myfyriwr dan 18 oed ac mae'r myfyriwr wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig (paragraff 2.19).

4.3.5 Ni dderbynnir y gwyn i Gam Ffurfiol y Weithdrefn os na fodlonir y meini prawf, a hysbysir y myfyriwr yn ysgrifenedig am hynny.

4.3.6 Os bydd yr Uwch Swyddog o'r adran Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn penderfynu bod y gŵyn gyfan / rhan o'r gŵyn yn bodloni gofynion y Weithdrefn Gwyno, caiff ei derbyn i'r broses a bydd yr holl derfynau amser a nodir yn y weithdrefn hon yn berthnasol o ddyddiad derbyn y gŵyn ffurfiol i'r weithdrefn ymlaen. Hysbysir y myfyriwr yn ysgrifenedig am y penderfyniad hwn i dderbyn.

4.3.7 Os bydd y gŵyn yn cael ei derbyn i Gam Ffurfiol y weithdrefn, bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn penodi uwch aelod o staff academaidd neu weithredol, nad oedd ynghlwm â'r gŵyn yn flaenorol, i fod yn Swyddog Ymchwilio. Dewisir Swyddog Ymchwilio o gronfa o staff hyfforddedig a phrofiadol.

4.3.8 Efallai y bydd y Swyddog Ymchwilio yn cwrdd â phartïon perthnasol, gan gynnwys y myfyriwr, i gasglu gwybodaeth bellach, a bydd ganddo/ganddi'r hawl i weld gwybodaeth sydd eisoes wedi'i hystyried yn ystod y Cam Datrys Cynnar. Mae'n ofynnol bod staff yn cwrdd â'r Swyddog Ymchwilio i gynorthwyo ag ymholiadau, pan ofynnir iddynt. Bydd y Rheolwr Ansawdd neu Gydlynydd Ansawdd a Rheoleiddio yn bresennol ym mhob cyfarfod a drefnir gan y Swyddog Ymchwilio, i gymryd nodiadau o'r cyfarfod.

4.3.9 Bydd y Swyddog Ymchwilio yn gwneud pob ymdrech i gwblhau'r ymchwiliad **cyn pen ugain diwrnod gwaith** o'i benodi. Os nad yw hyn yn bosibl, hysbysir y myfyriwr yn ysgrifenedig o'r rheswm dros yr oedi a'r terfyn amser disgwyliedig ar gyfer cwblhau'r ymchwiliad.

4.3.10 Bydd adroddiad y Swyddog Ymchwilio yn cynnwys manylion am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i ymchwilio i'r gŵyn, a bydd yn dod i un o'r casgliadau isod:

- Mae'r gŵyn lawn, neu ran ohoni, wedi cael ei chadarnhau, ac felly cynigir datrysiad/canlyniad
  NEU
- Nid yw'r gŵyn wedi cael ei chadarnhau gan nad os seiliau na thystiolaeth i'w chefnogi, ac o ganlyniad ni chymerir unrhyw gamau pellach.

4.3.11 Pan na fydd y gŵyn yn cael ei chadarnhau, ond mae cyfleoedd i weithredu arferion da wedi dod i'r amlwg fel rhan o'r ymchwiliad, dylai'r materion hyn gael eu cynnwys yn yr adroddiad, ond dylid pwysleisio mai awgrymiadau ar gyfer gwella yn unig yw'r rhain ac nad ydynt yn awgrymu bod unrhyw fethiannau wedi digwydd ar ran y Brifysgol.

4.3.12 Pan fydd y gŵyn wedi cael ei chadarnhau'n rhannol neu'n llawn, bydd y Swyddog Ymchwilio yn pennu'r camau adferol sydd eu hangen i ddatrys y mater. Mae'r rhestr ganlynol yn darparu enghreifftiau o'r datrysiadau priodol posibl, ond nid ydynt yn gynhwysfawr nac yn annibynnol ar ei gilydd:

- Cynnig ymddiheuriad;
- Gwneud gwelliannau neu addasiadau i gymorth, addysg neu wasanaethau i wella profiad y myfyriwr yn y dyfodol;
- Cynnig iawndal am gymorth, addysg neu wasanaethau annigonol;
- Cynnig iawndal am drallod ac anghyfleustra a allai fod wedi cael ei achosi.

4.3.13 Os yw'r Swyddog Ymchwilio o'r farn ei bod yn bosib fod amgylchiadau'r gŵyn wedi effeithio ar asesiad y myfyriwr, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at Gadeirydd y Bwrdd Asesu perthnasol am ystyriaeth bellach dan y Weithdrefn Apeliadau Academaidd/Adolygu Penderfyniadau Bwrdd Asesu.

4.3.14 Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, bydd y Swyddog Ymchwilio yn anfon yr adroddiad at y Deon Cyfadran neu'r Pennaeth Gweithredol perthnasol a'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu ei enwebai). Dylai'r adroddiad wneud argymhellion ar gyfer datrys y gŵyn, gan dynnu sylw at unrhyw newidiadau a argymhellir i brosesau i atal y sefyllfa rhag cael ei hailadrodd ac/neu i wella profiad y myfyriwr.

4.3.15 Bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu ei enwebai) yn trafod yr adroddiad gyda'r Deon Cyfadran neu Bennaeth Gweithredol perthnasol i sicrhau yr ymchwiliwyd yn briodol i agwedd ar y gŵyn, ac i adolygu dichonolrwydd yr argymhellion a gynigiwyd a'r ffordd y cânt eu gweithredu. Os yw'r argymhellion yn cynnwys iawndal ariannol, efallai y bydd angen trafod gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid hefyd.

4.3.16 Os bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu ei enwebai) o'r farn nad ymchwiliwyd yn llawn i'r gŵyn, neu fod y canfyddiadau neu argymhellion yn afresymol, bydd yr adroddiad yn cael ei ddychwelyd i'r Swyddog Ymchwilio ar gyfer ystyriaeth bellach.

4.3.17 Pan fydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu ei enwebai) yn fodlon ag adroddiad y Swyddog Ymchwilio, bydd yn sicrhau bod llythyr canlyniad yn cael ei anfon at y myfyriwr ar ran y Swyddog Ymchwilio.

4.3.18 Os bodlonir un neu fwy o'r seiliau a nodir ym mharagraff 4.4.1 isod, caiff y myfyriwr ofyn am adolygiad **cyn pen deg diwrnod gwaith** o ddyddiad y llythyr ynghylch canlyniad y Cam Ffurfiol. Nid yw anfodlonrwydd â'r canlyniad neu'r datrysiad a gynigir ar y Cam Ffurfiol yn sail ddigonol dros ofyn am adolygiad.

4.3.19 Os nad oes gan y myfyriwr seiliau i ofyn am adolygiad dan y weithdrefn hon, neu os yw'n penderfynu peidio â gwneud hynny, yna bernir bod y gweithdrefnau mewnol wedi eu cwblhau.

## 4.4 Cam Adolygu

### Pennu Seiliau ar gyfer Adolygiad

4.4.1 Derbynnir cais am adolygiad dim ond os bodlonir un neu fwy o’r seiliau isod:

- Mae anghysondeb o bwys wedi bod ar Gam Ffurfiol y weithdrefn, sydd wedi effeithio'n amlwg ar y canlyniad;
- Mae tystiolaeth nad ystyriwyd yr holl ffeithiau perthnasol yn ystod Cam Ffurfiol yr ymchwiliad;
- Ceir tystiolaeth newydd a allai effeithio ar ganlyniad y Cam Ffurfiol ac mae rheswm da a rhesymol pam na chafodd yr wybodaeth hon ei darparu adeg ymchwiliad y Cam Ffurfiol.

4.4.2 Os ymchwiliwyd i gŵyn dan weithdrefn coleg/sefydliad partner ac mae’r myfyriwr yn dal yn anfodlon, caiff y myfyriwr gyfeirio’r gŵyn am adolygiad dan y cam hwn yng ngweithdrefn y Brifysgol, os bodlonir un o’r seiliau a nodwyd uchod.

4.4.3 **Cyn pen deg diwrnod gwaith** o ddyddiad llythyr canlyniad y Cam Ffurfiol, dylai’r myfyriwr lenwi Ffurflen Gwyno i Fyfyrwyr y Cam Adolygu a’i chyflwyno drwy complaints@glyndwr.ac.uk ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig, gan roi manylion y rhesymau am y cais am adolygiad.

4.4.4 **Cyn pen saith diwrnod gwaith**, bydd uwch swyddog yn yr adran Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn ystyried y cais am adolygiad, yn pennu a yw’n bodloni’r meini prawf a amlinellir yn y paragraff 4.4.1 uchod, ac yn hysbysu’r myfyriwr ynghylch hyn. Un o'r canlynol fydd canlyniad yr adolygiad:

- Ni sefydlwyd seiliau ar gyfer adolygiad, felly bydd yr Uwch Swyddog yn hysbysu’r myfyriwr o’r penderfyniad hwn drwy lythyr Cwblhau Gweithdrefnau; Neu
- Mae seiliau ar gyfer adolygiad wedi'u sefydlu, felly bydd Panel Adolygu yn cael ei alw i ystyried y mater ymhellach.

4.4.5 Os sefydlwyd seiliau ar gyfer adolygiad, bydd yr Uwch Swyddog Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn hysbysu’r Swyddog Ymchwilio fod y gŵyn yn symud yn ei blaen i Gam Ffurfiol y weithdrefn, yn gwneud cais am adroddiad ysgrifenedig o Gam Ffurfiol yr ymchwiliad ac yn hysbysu y bydd angen cyflwyno’r adroddiad hwnnw yng ngwrandawiad y Panel Adolygu.

## Galw Panel Adolygu

4.4.6 Fel rheol, bydd Panel Adolygu yn cael ei alw cyn pen **ugain diwrnod gwaith** o'r dyddiad y cafodd yr adolygiad ei dderbyn gan yr Uwch Swyddog. Efallai y bydd angen ymestyn yr amserlen yn ystod gwyliau'r Brifysgol ac mewn sefyllfa o'r fath bydd y myfyriwr yn cael ei hysbysu am y rheswm dros yr oedi, a hyd tebygol yr oedi hwnnw.

4.4.7 Bydd y Panel Adolygu yn cynnwys yr aelodau canlynol:

- Cadeirydd: uwch aelod o staff academaidd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd i weithredu fel Cadeirydd ar baneli,
- Uwch aelod o'r staff academaidd neu weithdrefnol;
- Aelod o'r Undeb Myfyrwyr.
- Swyddog o'r adran Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr.

Bydd pob aelod o'r panel heb gysylltiad â'r myfyriwr a'i faes pwnc, ac ni fyddant wedi ymwneud â'r achos yn flaenorol. Bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn enwebu aelod o'r staff Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr i weithredu fel Ysgrifennydd.

## Cylch Gwaith y Panel

4.4.8 Mae gan y Panel Adolygu Cwynion hawl i benderfynu:

- Y bydd y penderfyniad a wnaed gan y Swyddog Ymchwilio ar Gam Ffurfiol y gwrandawiad yn cael ei gadarnhau ac, os felly, darperir rhesymau dros y penderfyniad hwnnw i'r myfyriwr;

NEU

- Na fydd penderfyniad y Swyddog Ymchwilio ar Gam Ffurfiol y gwrandawiad yn cael ei gadarnhau, ac felly bydd yn disodli'r penderfyniad hwnnw â'i benderfyniad a'i ddatrysiadau ei hun mewn perthynas â'r gŵyn.

## Dogfennaeth a Pharatoadau ar gyfer y Cyfarfod

4.4.9 O leiaf **bum niwrnod gwaith** cyn cyfarfod y Panel, rhoddir gwybod i'r myfyriwr am ddyddiad a threfniadau'r cyfarfod, a darperir y ddogfennaeth berthnasol iddo/iddi. Gofynnir i'r myfyriwr a yw'n bwriadu cael cwmni yn y gwrandawiad, ac a yw'n dymuno galw ar unrhyw dystion ai peidio. Bydd y ddogfennaeth yn cynnwys ffurflen gwyno'r myfyriwr gyda thystiolaeth ategol, y ffurflen gais am adolygiad, adroddiad y swyddog ymchwilio, copïau o weithdrefnau a rheoliadau academaidd perthnasol ac unrhyw ddogfennaeth arall y gofynnwyd amdani gan Gadeirydd y Panel Adolygu. Er mwyn bod yn dryloyw, bydd pob dogfen y mae'r Panel yn ei gweld ar gael i'r myfyriwr hefyd.

4.4.10 Ni fydd gan y myfyriwr hawl i gyflwyno unrhyw dystiolaeth newydd ar y cam hwn oni bai (yn unol â pharagraff 4.4.1 uchod) fod achos da a rhesymol pam na ddarparwyd y dystiolaeth yn ystod Cam Ffurfiol y weithdrefn.

4.4.11 Gellir dod o hyd i ganllawiau ynghylch cael cwmni yng nghyfarfod y Panel ym mharagraffau 2.31 i 2.33 uchod.

4.4.12 Bydd Cadeirydd y Panel yn penderfynu pa aelodau staff fydd angen bob yn bresennol yng nghyfarfod y Panel i ddarparu tystiolaeth. Bydd yr Ysgrifennydd yn hysbysu'r aelodau staff hyn bod angen iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfod o leiaf **pum niwrnod gwaith** ymlaen llaw.

4.4.13 Bydd Cadeirydd y Panel yn penderfynu a yw'r tystion y mae'r myfyriwr eisiau galw arnynt yn briodol. Os caniateir y tystion, dylid rhoi gwybod i'r myfyriwr, a chyfrifoldeb y myfyriwr fydd cysylltu â'r Ysgrifennydd i bennu amseroedd a darparu manylion trefniadau'r cyfarfod adolygu i'r tystion.

**Presenoldeb mewn Cyfarfod**

4.4.14 Os bydd myfyriwr yn mynychu gwrandawiad, ond nid yw'n ei fynychu ac nid yw'n darparu rheswm nac ymddiheuriad, bydd y gwrandawiad yn parhau yn ei absenoldeb ef/hi. Os rhoddir rhesymau, bydd y Cadeirydd yn penderfynu a ddylid caniatáu gohiriad. Gwneir cais am dystiolaeth liniarol, ac fe'i cyflwynir i'r Cadeirydd am gymeradwyaeth. Os ceir cymeradwyaeth gan y Cadeirydd, rhoddir caniatâd i ohirio, ond bydd hynny unwaith yn unig.

4.4.15 Os nad yw'r myfyriwr yn gallu bod yn bresennol mewn gwrandawiad am resymau eithriadol, mae'n rhaid iddo/iddi hysbysu Ysgrifennydd y Panel dim hwyrach na 48 awr cyn y gwrandawiad. Lle bo'n bosibl, gellir darparu cyfle i'r achos gael ei drafod drwy ddull electronig a/neu gwahoddir y myfyriwr i gyflwyno datganiad ysgrifenedig i'w ystyried gan Banel y Gwrandawiad.

4.4.16 Os bydd y myfyriwr yn dweud na fydd yn bresennol yn y gwrandawiad, neu os na cheir ateb yn dilyn un nodyn atgoffa, bydd y gwrandawiad yn parhau yn eu habsenoldeb.

4.4.17 Os yw bob cyfle posibl wedi cael ei gynnig i'r myfyriwr fynychu'r Gwrandawiad Cwynion, ond mae'n parhau i fethu/wrthod mynychu, caiff y Gwrandawiad fynd ei flaen yn ei absenoldeb.

**Y Weithdrefn yng Nghyfarfod y Panel**

4.4.18 Fel rheol, disgwylir y bydd y swyddog ymchwilio a'r myfyriwr yn bresennol yn y cyfarfod ar yr un pryd a'u bod yn aros yn y cyfarfod i glywed pob tystiolaeth gan dystion ac yn gadael pan fydd y Panel yn trafod y dystiolaeth a rannwyd. Fodd bynnag, os yw Cadeirydd y Panel Adolygu o'r farn y byddai'n cynorthwyo i gasglu tystiolaeth neu warchod cyfrinachedd, gellir gofyn i'r ddau barti adael tra holir y tystion.

4.4.19 Gwahoddir y Swyddog Ymchwilio i grynhoi ei ymchwiliad ac amlinellu'r rhesymau dros ei benderfyniad yn y Cam Ffurfiol. Yna, gwahoddir y myfyriwr i gyflwyno ei gŵyn ac ymateb i adroddiad y Swyddog Ymchwilio.

4.4.20 Gellir galw ar dystion, ac efallai y bydd y Panel yn eu holi. Gyda chaniatâd y Cadeirydd, caiff y myfyriwr a'r Swyddog Ymchwilio holi'r tystion.

4.4.21 Ar ôl i'r holl dystiolaeth gael ei chlywed, bydd y myfyriwr a'r Swyddog Ymchwilio yn gadael a bydd y Panel yn trafod yn breifat.

**Penderfyniad y Panel Adolygu**

4.4.22 Fel arfer, rhennir penderfyniad y Panel Adolygu Cwynion gyda’r myfyriwr a’r Gyfadran/Adran Weithredol yn ysgrifenedig o fewn **saith diwrnod gwaith** i'r cyfarfod. Os nad yw'r Panel yn gallu dod i benderfyniad neu os nad yw'n bosibl glynu at y terfyn amser (er enghraifft, os yw gohiriad yn y gweithdrefnau yn angenrheidiol) rhoddir gwybod i bob parti am ddatblygiadau a'r rhesymau dros ymestyn y terfyn amser.

4.4.23 Pan na fydd y gŵyn yn cael ei chadarnhau, fel rhan o'r ymchwiliad bydd cyfleoedd i weithredu arferion da yn cael eu nodi; dylai’r materion hyn gael eu cynnwys yn y llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ac unrhyw adroddiad dilynol, ond dylid pwysleisio mai awgrymiadau ar gyfer gwella yn unig yw’r rhain ac nad ydynt yn awgrymu bod unrhyw fethiannau wedi digwydd ar ran y Brifysgol.

4.4.24 Pan fydd y gŵyn wedi cael ei chadarnhau'n rhannol neu’n llawn, bydd y Panel yn pennu'r camau adferol sydd eu hangen i ddatrys y mater. Mae’r rhestr ganlynol yn darparu enghreifftiau o’r datrysiadau priodol posibl, ond nid ydynt yn gynhwysfawr nac yn annibynnol ar ei gilydd:

- Cynnig ymddiheuriad;
- Gwneud gwelliannau neu addasiadau i gymorth, addysg neu wasanaethau i wella profiad y myfyriwr yn y dyfodol;
- Cynnig hepgor/gostwng ffïoedd o ganlyniad i gymorth, addysg neu wasanaethau annigonol;
- Cynnig iawndal am drallod ac anghyfleustra a allai fod wedi cael ei achosi.

4.4.25 Os yw'r Panel o'r farn ei bod yn bosib fod amgylchiadau'r gŵyn wedi effeithio ar asesiad y myfyriwr, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at Gadeirydd y Bwrdd Asesu perthnasol am ystyriaeth bellach dan y Weithdrefn Apeliadau Academaidd/Adolygu Penderfyniadau Bwrdd Asesu.

4.4.26 Mae penderfyniad y Panel Adolygu Cwynion yn derfynol ac mae'n cynrychioli cwblhad gweithdrefnau cwyno mewnol y Brifysgol. Hysbysir y myfyriwr o benderfyniad y Panel Adolygu Cwynion drwy ddosbarthu llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

## 5. Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (SDA)

Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (SDA) yn cynnal cynllun annibynnol ar gyfer adolygu cwynion myfyrwyr. Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn aelod o'r cynllun hwn. Os nad ydych yn fodlon â'r canlyniad, mae'n bosib y gallwch ofyn i’r SDA adolygu eich cwyn. Cewch ragor o wybodaeth am wneud cwyn i’r SDA, beth y gall edrych arno, beth na all edrych arno, a beth y gall ei wneud i gywiro pethau sydd wedi mynd yn anghywir yma:
https://www.oiahe.org.uk/students/
Fel rheol, mae angen i chi fod wedi cwblhau’r weithdrefn hon cyn gwneud cwyn i’r SDA. Bydd y Brifysgol yn anfon llythyr atoch chi, sef “Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau”, pan fyddwch wedi cyrraedd diwedd ein prosesau ac nid oes camau pellach y gallwch eu cymryd yn fewnol. Os na fydd eich cwyn yn cael ei chadarnhau, bydd y Brifysgol yn cyflwyno Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau i chi’n awtomatig. Os bydd eich cwyn yn cael ei chadarnhau’n rhannol neu’n llawn, gallwch ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau os hoffech un. Cewch ragor o wybodaeth ynghylch Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau, a phryd y dylech ddisgwyl cael un, yma:
https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-procedures-letters/

## Mater yn codi

Dylid sicrhau bod yr aelod staff sydd fwyaf cysylltiedig â'r mater yn ymwybodol ohono gynted ag y mae'n codi, oherwydd gall cwynion a godir y tu hwnt i'r terfyn amser 40 diwrnod fod yn anghymwys.

**Mecanweithiau Adborth**

Codi materion drwy fecanwaith adborth Undeb y Myfyrwyr

Gofynnwch i'ch Cynrychiolydd Myfyrwyr godi eich pryderon yn y Fforwm Llais Myfyrwyr (FfLlM) a sicrhewch eich bod yn cael ymateb wyneb yn wyneb neu drwy gofnodion y FfLlM ar dudalen Moodle eich rhaglen

Ceisio cefnogaeth gan Ymgynghorydd Undeb y Myfyrwyr

**A ydych chi'n ystyried bod y mater wedi'i ddatrys?**

Bydd | Nac ydw

**Datrysiad Cynnar**
(Cam Lleol)

Llenwch Ffurflen Gwyno, casglwch dystiolaeth berthnasol a'u cyflwyno i complaints@glyndwr.ac.uk

Fel arfer, darperir ymateb ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod gwaith o dderbyn eich cwyn*

**A ydych chi'n ystyried bod y mater wedi'i ddatrys?**

Bydd | Na fyddwn

**Cam Ffurfiol**
(Ymchwiliad)

Nodwch fanylion y materion yn y gŵyn rydych yn dal yn anfodlon â nhw mewn neges e-bost i complaints@glyndwr.ac.uk gan gynnwys tystiolaeth ategol **dim hwyrach na 10 diwrnod gwaith o ddyddiad llythyr canlyniad y Datrysiad Cynnar**

Os derbynnir eich cwyn*, penodir Swyddog Ymchwilio (SY) sydd heb fod ynghlwm â'r gŵyn yn flaenorol

Fel arfer, bydd yr SY yn cael 20 diwrnod gwaith i gwrdd â phob parti, adolygu gwybodaeth a ystyriwyd yn ystod y Cam Datrys Cynnar, a llunio adroddiad. Byddwch yn cael llythyr canlyniad yn nodi manylion y canfyddiadau

**A ydych chi'n ystyried bod y mater wedi'i ddatrys?**

Ydw | Na fyddwn

**Cam Adolygu**
(Panel)

Cwblhewch Ffurflen Gwyno y Cam Adolygu a'i chyflwyno i complaints@glyndwr.ac.uk **dim hwyrach na 10 diwrnod gwaith o ddyddiad llythyr canlyniad y Cam Ffurfiol**

Bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn derbyn neu'n gwrthod cwyn y Cam Adolygu*, fel arfer o fewn 7 diwrnod gwaith

Bydd Panel Adolygu yn cael ei alw, fel arfer o fewn 20 diwrnod gwaith o dderbyn cwyn y Cam Adolygu. Dewisir aelodau'r panel o du allan i'ch maes pwnc, ac ni fydd ganddynt wybodaeth flaenorol am eich cwyn. Bydd y panel yn ystyried yr holl wybodaeth a thystiolaeth, yn gwrando ar dystion a'r SY ynghylch ymchwiliad a chanlyniad y Cam Ffurfiol

Fe'ch gwahoddir i fod yn bresennol a chymryd rhan yng ngwrandawiad y panel adolygu, o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a drefnwyd ar ei gyfer

Dosbarthir Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau i chi yn cynnwys penderfyniad y panel, fel arfer o fewn 7 diwrnod gwaith

**A ydych chi'n ystyried bod y mater wedi'i ddatrys?**

Ydw | Na

O fewn 12 mis i ddyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, cewch gyflwyno cais i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) adolygu ymdriniaeth y Brifysgol o'ch cwyn.

* Gweler isod y seiliau posibl am **beidio** â derbyn cwyn:

| **Datrysiad Cynnar:** |
|---|
| Ni ddefnyddiwyd mecanweithiau adborth, ac nid oes rheswm da dros hyn |
| Cwynion dienw |
| Cwynion am farn academaidd |
| Apeliadau academaidd yn ymwneud â phenderfyniadau byrddau asesu** |
| Honiadau o fwlio neu aflonyddu neu gamymddwyn gan aelod o staff** |
| Cwynion am yr Undeb Myfyrwyr**<br>(dolen o https: //www.wrexhamglyndwrsu.org.uk/main-menu/your-union/governance ) |
| Cwynion am y broses dderbyn**<br>(dolen o https: //www.glyndwr.ac.uk/en/Howtoapply/Admissionspolicies/) |
| Cwynion o natur ddisylwedd, faleisus neu flinderus |
| Cwynion a dderbynnir y tu hwnt i'r terfyn amser - Efallai y gwrthodir cwynion am rywbeth a ddigwyddodd mwy na 40 diwrnod yn ôl |
| Cwynion a gyflwynir gan drydydd parti, oni bai y darperir awdurdod ysgrifenedig a rhesymeg, neu mae'r trydydd parti yn cynrychioli myfyriwr dan 18 oed |
| **Mae polisïau a gweithdrefnau ar wahân yn rhoi sylw i'r materion penodol hyn |

| **Cam Ffurfiol:** |
|---|
| Ni wnaed unrhyw ymgais i ddatrys y mater drwy'r Cam Datrys Cynnar |
| Mae mwy na 10 diwrnod gwaith wedi mynd heibio ers dosbarthu llythyr canlyniad y cam Datrys Cynnar |
| Nid oes tystiolaeth wedi cael ei darparu i gefnogi'r gŵyn, ac nid oes rheswm da dros hyn |
| Mae'r materion a godwyd a'r dystiolaeth a ddarparwyd yn awgrymu na fyddai'n bosibl cael canlyniad gwahanol iawn drwy ymchwilio i'r gŵyn ar Gam Ffurfiol y weithdrefn |
| Cwynion o natur ddisylwedd, faleisus neu flinderus |
| Cwynion a gyflwynir gan drydydd parti, oni bai y darperir awdurdod ysgrifenedig a rhesymeg, neu mae'r trydydd parti yn cynrychioli myfyriwr dan 18 oed |
| **Os na dderbynnir cwyn i Gam Ffurfiol y broses, bydd llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn cael ei ddosbarthu** |

| **Cam Adolygu:** |
|---|
| Mae mwy na 10 diwrnod gwaith wedi mynd heibio ers dosbarthu llythyr canlyniad y Cam Ffurfiol |
| Nid oes seiliau ar gyfer adolygiad wedi'u sefydlu h.y.: |
| • Nid oes tystiolaeth bod anghysondeb o bwys wedi effeithio ar ganlyniad y Cam Ffurfiol |
| • Nid oes tystiolaeth bod y Cam Ffurfiol wedi methu ag ystyried yr holl ffeithiau perthnasol |
| • Mae tystiolaeth newydd wedi cael ei darparu i gefnogi'r cais am adolygiad, ond ni ddarparwyd rheswm da dros beidio â darparu hyn yn ystod ymchwiliad y Cam Ffurfiol |
| **Os na dderbynnir cwyn i Gam Adolygu'r broses, bydd llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn cael ei ddosbarthu** |

Os na fyddwch yn mynychu gwrandawiad panel adolygu, bydd yn mynd rhagddo yn eich absenoldeb, oni bai
eich bod yn rhoi rhesymau dros ganiatáu gohiriad sy'n dderbyniol gan Gadeirydd panel y gwrandawiad. Unwaith yn unig y rhoddir caniatâd i ohirio.
Os nad ydych yn gallu bod yn bresennol mewn gwrandawiad am resymau eithriadol,